


Anrhydeddus Gymdeithas
Y Cymmrodorion

Sefydlwyd 1751



The Honourable Society
Of Cymmrodorion

Founded 1751

NODDWR/PATRON: EI UCHELDER BRENHINOL TYWYSOG CYMRU/ HRH THE PRINCE OF WALES

**ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNGOR AM 2014
CYFLWYNWYD I'R CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL
AR 12 MAI 2015**

Cynhaliwyd naw darlith yn ystod y flwyddyn galendr 2014. Roedd y rhain yn cynnwys darlith flynyddol goffa June Gruffydd a gynhaliwyd ar y cyd â Chymdeithas Sir Drefaldwyn a'r ddarlith flynyddol yn y Gymraeg gyda chymorth Llywodraeth Cymru. Cynhaliwyd y darlithiau yn Llundain ac eithrio y ddarlith a draddodwyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli.

Dydd Mawrth 14 Ionawr 2014

Llewellyn Wyn Griffith and the Great War – one hundred years on.

Yr Is-Gadfridog Jonathan Riley

Yny gadair: Geraint Evans

Dydd Mercher 5 Chwefror (ar y cyd â Chymdeithas Sir Drefaldwyn)

Re-thinking 13th Century Powys

Dr David Stephenson

Yn y gadair: Michael Gibbon CF

Dydd Mawrth 11 Mawrth 2014

*The Business of Empire: Welsh Nabobs and the Making of Money in the British Empire
c1760-1830*

Yr Athro Huw Bowen

Yn y gadair: Jenkin Thomas

Dydd Mawrth 15 Ebrill 2014

Dylan Marlais Thomas: What's in a middle name?

Yr Athro M Wynn Thomas

Yn y gadair: Yr Athro Stuart Cole CBE

Dydd Mawrth 13 Mai 2014 (ar y cyd â Chymru yn Llundain)

Wales' First Radical – the Life of Dr William Price

Dean Powell

Yn y gadair: Robert John

Dydd Mawrth 4 Mehefin 2014 (gyda nawdd y Llywodraeth Gymraeg)

TH Parry Williams a Helynt y Gadair Gymraeg yn Aberystwyth yn 1919-20

Bleddyn Owen Huws

Yn y gadair: Dr Adrian Morgan

Dydd Iau 7 Awst 2014

Cymry Cock Lane a'u Cenadwri

Huw Edwards

Yn y gadair: Yr Athro Prys Morgan

Dydd Mawrth 23 Medi 2014

A Picture of the Past and a Mirror of the Present? Creating a National History Museum at St Fagans

Dr Beth Thomas a Nia Williams

Yn y gadair: Robert John

Dydd Mercher 22 Hydref 2014

Constitutional Change: the Work of the Commission on Devolution in Wales

Yr Athro Noel Lloyd CBE

Dydd Mawrth 18 Tachwedd 2014

1922: A Year in the Remarkable Life of Lady Rhondda

Angela V. John

Yn y gadair: Gwenda Sippings

Dymuna'r Cyngor ddiolch i'r rhai a dderbyniodd gwahoddiad y Cyngor i ddarlithio – yn enwedig Wynn Thomas a fu mor garedig a llenwi bwlch ar fyr rybudd – a'r rhai a gymerodd y gadair. Nodwyd safon uchel y darlithiau a draddodwyd i gynulleidafaoedd da bob tro – hyd yn oed ym mis Chwefror 2014 pan fu raid i nifer fawr herio streic yr *Underground*. Dymuna'r Cyngor ddiolch i staff Cymdeithas Feddygol Llundain lle y cynhaliwyd pob darlith ag eithrio un ac i Swyddfa Llywodraeth Cymru lle y cynhaliwyd y ddarlith Gymraeg. Dymuna hefyd, ddiolch am y cymorth a gafwyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli ac i'r sawl a cynrychiolodd y Gymdeithas ar nifer o gyrrff cyhoeddus yng Nghymru yn ystod 2014.

Cyhoeddwyd Trafodion 2014 a danfonwyd cyfrol i unigolion a sefydliadau ym Mhrydain a thramor sydd a'u henwau ar ein cronfa ddata. Dymuna'r Cyngor ddiolch i'r holl gyfranwyr ac i roi ar goedd y gwaith a gyflawnwyd gan y Golygydd Mygedol. Wrth gydnabod unwaith eto, yr anhawsterau o gyfieithu darlithiau gydag ansawdd gweledol sylweddol i ffurf ysgrifenedig, cytunodd y Cyngor y dylir cael cysylltiad cyson rhwng y rhai sy'n dyfeisio'r Rhaglen a'r Golygydd Mygedol, er mwyn sicrhau bod cyfrolau yn y dyfodol yn dangos cytbwysedd rhwng gwaith sy'n deillio o'r Rhaglen ac erthyglau a gomisiynwyd yn arbennig.

Wrth ystyried fod cyfrolau o'r Trafodion a gyhoeddwyd oddiar 2009 yn cael eu digideiddio a bod Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn storio cyfrolau a gyhoeddwyd cyn 2005, derbyniodd y Cyngor ei bod yn angenrheidiol i storio copiau caled o'r cyfnod 2005-2009 yn unig, nes bod y dasg o ddigideiddio wedi'i gyflawni. Derbyniwyd pe bai mynediad agored ar gael i gyfrolau cyfredol ni fyddai rheswm i dderbyn copi caled o'r Trafodion drwy danysgrifiad i'r Gymdeithas, a bod perygl o effaith negyddol ar yr aelodaeth. Penderfynwyd gan y Cyngor, felly, y ceir mynediad agored i'r gyfrol cyflawn mewn dwy flynedd, gydag archwiliad o holl batrwm caffaeledd ac unrhyw gyfyngiadau a osodir gan hawliau awduron unigol i arfer hawlfraint a meddiant.

Yn dilyn y penderfyniad yn 2013 i ymateb yn bositif i awgrym a wnaed gan *University of Wales' Centre for Advanced Welsh and Celtic Studies (CAWCS)* a Llyfrgell Cenedlaethol Cymru (LGC), y dylid trosglwyddo gwaith Golygydd y Bywgraffiadur Cymraeg i'r Athro Dafydd Johnson a'r Dr Aled Gruffydd Jones am dymor hir, gyda'r LGC yn westai ar-lein i'r Bywgraffiadur Cymraeg a staff CAWCS yn gyfrifol am y cynnwys a safonau golygyddol, Mae'r Cyngor yn parhau mewn trafodaethau i ystyried y ffordd gorau i gynnig cymorth. Ail-gadarnhawyd penderfyniad y Cyngor i gynnig enw'r Gymdeithas i'r prosiect a rhoddwyd cyfraniad o £5,000 yn y lle cyntaf, tuag at y treuliau am flwyddyn, gyda mynegiad y gallai fod cymorth pellach yn ystod y ddwy flynedd canlynol. Pwysleisiwyd, modd bynnag, fod unrhyw ymrwymiad yn y dyfodol yn ddibynnol ar gyllid y Gymdeithas.

Am yr ail flwyddyn yn olynol roedd yn bleser gan y Gymdeithas ddyfarnu'r Fedal. Cynhaliwyd seremoni gyda chynulleidfâ niferus yn Y Drwm, yn Aberystwyth, gyda chymorth Llyfrgell Genedlaethol Cymru a chyflwynwyd y Fedal i'r Athro Geraint Gruffydd gan yr Athro Dafydd Johnson, cyfarwyddwr presennol CAWCS. Bu'r Athro Geraint Gruffydd yn gyn ddeiliad o Gadair Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg a Llyfrgellydd y Llyfrgell Genedlaethol ac yn hwyrach bu'n gyfarwyddwr CAWCS. Dyfarnwyd y Fedal wrth nodi ei gyfraniad nodedig i ddysg ac ysgolheictod ac i Gymru.

Wedi i'r Cyngor dderbyn rhestr o'r holl gofebion, cronfaeodd tystiolaethol a phapurau coffaol sydd o fewn cyfrifoldeb y Gymdeithas, penderfynwyd gwneud ymdrech i roi cyfeiriad i bob un, o bosib gyda chymorth y Llyfrgell Genedlaethol ac i wneud cyfraniad tuag at adnewyddu y gofeb yn St Mary's Northolt i Goronwy Owen, a fu'n dra-gysylltiedig â'r Gymdeithas, a lle bu'n gurad yn y ddeunawfed ganrif. Cytunwyd hefyd i wneud cyfraniad tuag at achlysur yn Gray's Inn ym mis Mehefin, i lansio cyfrol o draethodau ac atgofion i ddathlu bywyd y diweddar Arglwydd Hooson, cyn Is-Lywydd o'r Gymdeithas.

Cafwyd cysylltiadau agos gyda sefydliadau eraill yn Llundain, yn nodedig, Cymru yn Llundain a Chanolfan Cymry Llundain. Roedd yn bleser gan y Llywydd dderbyn gwahoddiad i agor Gwyl Ddiwylliannol Cymry Llundain yn y Ganolfan ym mis Hydref, gyda darlith o hanner awr. Cytunwyd hefyd, i newid cyfeiriad swyddogol y Gymdeithas i 157-163 Gray's In Road, Llundain WC1X 8UE o 1 Awst 2014, felly yn gwaredu ar yr angen i gynnal Blwch Post a dileu gwariant o £250 y flwyddyn. Hefyd, cafwyd caniatad i storio dogfennau a phapurau y Gymdeithas yn y Ganolfan, felly yn gwaredu ar yr angen i gynnal stôr masnachol. Gofynwyd i'r Gymdeithas roi barn ar gynllun datblygu'r Ganolfan a chytunwyd i gymeradwyo a rhoi hysbysrwydd i'r cynllun fel y bo'n briodol.

Yn dilyn penderfyniad i neilltuo adnoddau cyllidol tuag at prosiect yn archwilio i gyflwr presennol a gwelliannau posib i addysg yng Nghymru, comisiynwyd yr Athro Gareth Rees o'r *Wales Institute of Social and Economic Research, Data and Methods (WISERD)*, Prifysgol Caerdydd, i gyflawni'r gwaith a chytunodd i roi cyflwyniad i'r Gymdeithas ym mis Mai 2015 ac i gyfrannu erthygl i gyfrol o'r Trafodion yn y dyfodol.

Yn unol ag ymrwymiad y Gymdeithas i wella cyfathrebiadau y Gymdeithas ac i gyflwyno gweithrediadau'r Gymdeithas i gynulleidfa mwy eang, penderfynwyd yn gynnar yn y flwyddyn i gomisiynu gwefan newydd. Gyda'r gwaith bron ar ben, mae'n amlwg y bydd y gwaith gorffenedig yn cyflwyno golwg newydd a chyfoes gyda chymhwysedd gwell i ddiweddarau ac yn arbennig y modd i hwyluso y broses o danysgrifio, drwy ddebid uniongyrchol yn defnyddio *GoCardless*, ac felly yn fodd i gynyddu yr aelodaeth. Mae gwaith yn dal mewn llaw ar y cynnwys, agweddion golygyddol a ffyrdd o chwyddo ymwybyddiaeth, ond penderfynwyd i archwilio y defnydd o *flyers*, cerdiau a dalen-nodau ar gyfer hysbysrwydd ac i edrych yn fwy manwl ar y posibilrwydd o hysbysebu ar *Facebook* ac yn y wasg.

Fel y gwelir yn adroddiad y Trysorydd Mygedol, cafwyd cynydd yn y gweddill cyllidol, yn bennaf drwy rhodd sylweddol a'r ffaith na dderbyniwyd dau fil sylweddol yn berthnasol i wariant 2014. Onibai am eitemau 'anghyffredin', roedd y cyfrifon yn unol â'r argoelion cyntaf ac yn cynnwys cymhorthdal tuag at gostau y Bywgraffiadur: buddsoddiad yn y wefan newydd: a'r gost o adnewyddu y gofeb i Goronwy Owen yn Northolt. Mae'r Cyngor yn foddhaol ei fod yn gweithredu ymhell o fewn y cyfrifon gydag incwm dipyn yn fwy na gwariant ac nad oes dadl presennol i godi pris y tanysgrifiad.

Tristwch i'r Cyngor oedd derbyn y newyddion am farwolaeth Douglas Brooks ym mis Medi. Bu'n aelod o'r Gymdeithas ers trigain mlynedd ac o'r Cyngor am ugain. Gwasanaethodd gydag anrhydedd fel Cadeirydd Pwyllgor y Fedal ac fel cynrychiolydd y Gymdeithas ar fwrdd yr Ymgyrch Dros Diogelu Cymru Wledig.

Fe hoffai'r Cyngor hefyd roi ar goedd ei gwerthfawrogiad o'i wasanaeth i'r Gymdeithas gan Brynley Roberts, sydd wedi penderfynu i beidio a gofyn am ei ail-ethol i'r Cyngor. Gwnaeth gyfraniad cynhwysfawr i'r Gymdeithas am flynyddoedd lawer, yn nodedig yn ei swydd fel Golygydd Y Bywgraffiadur Cymraeg.

Yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2014, ail-etholwyd yr Athro Prys Morgan fel Llywydd y Gymdeithas.

Etholwyd y canlynol am gyfnod o dair blynedd: Yr Athro Thomas Charles Edwards, Yr Athro Helen Fulton, Yr Athro John Elliott, Gwenda Sippings, Yr Athro Gruffydd Aled Williams a Huw Wynne-Griffith.

Peter Jeffreys
Ysgrifennydd Mygedol
Ebrill 2015